

**Dyddaid: 16 Ionawr 2002**

**Amser: 2.00 - 5.30**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**

**Teitl: YNNI ADNEWYDDOL YNG NGHYMURU – BARN CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Fel y corff statudol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar gynnal prydfferthwch naturiol, bywyd gwyllt a chyfleoedd am fwyniant awyr agored drwy Gymru a dyfroedd ei glannau, rydym yn croesawu adolygiad CCC o bolisi ynni, ac mae gennym gynrychiolydd ar Grwp Cyfeirio'r Pwyllgor Datblygu Economaidd (PDE). Byddwn yn cyfrannu mewn modd positif at adolygiad CCC ac rydym yn gefnogol iawn i gynllun datblygu cynaladwy CCC.

2. Dyma grynodedb o'n barn:

- rhaid hyrwyddo rheolaeth ar y galw ac effeithlonrwydd ynni;
  - yn y tymor byr, gwynt tua'r tir a gwynt alldraeth sy'n cynnig y posibiliadau gorau i gyrraedd targed Cymru o 10%. Mae angen cynllunio ar lefel strategol er mwyn darganfod ardaloedd addas, ac mae angen cyd-drafod rhwng pob cyfranddeiliad i wneud hynny. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn barod i gymryd rhan bositif mewn trafodaeth o'r fath;
  - yn y tymor canol/hir bydd angen casgliad llawer mwy o dechnolegau Ynni Adnewyddol a thechnolegau eraill. Mae angen buddsoddiad Ymchwil a Datblygu yn awr er mwyn ysgogi datblygiad y dulliau amgen hyn.

**Cyd-destun**

2. Mae cynhesu byd-eang ac asideiddio yn fgythyad mawr i amgylchedd Cymru. Mae'r ymchwil yn dangos effeithiau negyddol tebygol cynhesu byd-eang ar fywyd gwyllt, drwy newid dosbarthiad fflora a ffawna, newidiadau yn nhymeredd y môr a llifeiriant cefnforoedd, yn ogystal â chodiad yn lefel y môr a mwy a mwy o stormydd. Er y bydd yna ennill a cholli cynefinoedd a rhywogaethau, effeithiau negyddol sydd fwyaf tebygol ar fywyd gwyllt. Er enghraifft, mae astudiaeth ddiweddar o golli/ennill cynefinoedd arfordirol mewn safleoedd sy'n cael eu gwarchod o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a chymryd bod y proffwydoliaethau am godiad yn lefel y môr a'r effeithiau tebygol ar amddiffynfeydd arfordirol yn gywir) wedi dangos y byddai colled net o gynefinoedd rhyng-lanw a thwyni tywod yng Nghymru. Gellid ennill ychydig o dir morfa heli drwy ymgilio wedi ei reoli. O

ran rhywogaethau'r môr, gan fod y DG ar ffin bio-ddaearyddol rhwng systemau dwr cynnes ac oer, fe allai newidiadau dramatig yn nhymheredd y môr gael effaith arbennig o ddramatig ar ddsbarthiad rhywogaethau, gan gynnwys pysgod masnachol.

3. Mae asideiddio a mwy a mwy o ewtroffigedd, yn dal i achosi pryder mawr. Mae hyd at 60% o'r dyddodiad asid yng Nghymru yn cael ei achosi gan ollyngiadau yn y DG (gyda tua 35% yn dod o Ewrop). Yng ngogledd Cymru y dyddodiad mwyaf yw'r dyddodiadau gwlyb pell-gyrhaeddol o orsafoedd ynni megis Fiddler's Ferry, Ruggely a Ferrybridge. Mae Aberddawan hefyd yn cael effaith sylweddol. Yng nghanolbarth Cymru, y dyddodion mwyaf yw'r rhai o orsafoedd ynni yng ngogledd canoldir Lloegr a de swydd Efrog. Yn ne Cymru, mae dyddodiad sych yn bwysig, ac mae Aberddawan yn chwarae rhan amlwg. Mae Didcot hefyd yn bwysig. Bydd Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (IPPC) 2000 yn helpu Llywodraeth y DG i wneud ei dyletswydd o dan y Gyfarwyddeb Gweithfeydd Llosgi Mawr a'r Gyfarwyddeb Uchafswm Gollyngiadau Cenedlaethol. Ond er hynny, hyd yn oed ar ôl gwneud yr holl doriadau ar allyriadau asidig a gynigir yn awr, fe fydd nifer fawr o gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn dal i ddioddef lefelau niweidiol o lygredd sy'n uwch na'u llwythi critigol.

5. Mae angen gwarchod amgylchedd Cymru rhag niwed o'r fath, nid er ei fwyn ei hun yn unig, ond fel ased economaidd o bwys i Gymru. Mae'r adroddiad ymchwil *Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd* yn dangos:

- fod rheoli a defnyddio amgylchedd Cymru yn cyfrannu £6bn yn uniongyrchol i'r Cynnyrch y Pen (GDP) yng Nghymru;
- fod y gwaith hwn yn creu 169,000 o swyddi yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, sy'n cynrychioli 1 o bob 6 sydd mewn gwaith yng Nghymru.

6. Er mwyn cynnal y buddiannau economaidd hyn, rhaid i ddatblygiad ynni adnewyddol (YA) yng Nghymru beidio bod yn niweidiol i amgylchedd naturiol Cymru ac ansawdd ei thirwedd.

7. Mae datblygiad cynaladwy yn ein gorfodi i fabwysiadu dull egwyddor cymryd gofal tuag at y cwestiynau hyn, a gweithredu yn addas er mwyn lleihau cynhesu byd-eang, ac mae gennym ddiddordeb mawr felly mewn cefnogi mentrau sy'n lleihau gollyngiadau nwyon sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang ac at asideiddio.

8. O fewn cyd-destun cynllun datblygiad cynaladwy a Chynllun Gofodol Cymru sy'n dod i'r amlwg, mae lle i ddatblygu dull strategol a phro-actif tuag at ddatblygu Ynni

Adnewyddol yng Nghymru.

## Y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol– targed CO<sub>2</sub>

9. Mae'r RCEP wedi argymhell fod allyriadiadau CO<sub>2</sub> y DG yn cael eu lleihau o 60%, o'r lefelau presennol erbyn 2050. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi'r nod tymor hir hwn, ac mae'n dilyn mai hwn ddylai benderfynu polisi uwchlaw dim arall. Mae'r Adran Diwydiant a Masnach o'r farn fod hyn yn golygu fod yn rhaid i ddwysedd carbon economi'r DG ostwng o 4.4% y flwyddyn am y cyfnod 2010-50 (o'i gymharu â'r cyfartaledd hanesyddol o 3% a ddisgwyllir erbyn 2010). Mae hon yn sialens enfawr, yn llawer mwy pell-gyrhaeddol na tharged sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfran yr ynni a ddaw o ffynonellau nad ydynt yn gollwng CO<sub>2</sub>, fel mewn targed adnewyddol. Yn ein barn ni, nid yw Strategaeth Genedlaethol Datblygiad Economaidd CCC yn cydnabod yn ddigonol yr angen dwys i ddatgysylltu twf economaidd yng Nghymru oddi wrth ddefnydd o ynni. Petai'r CCC yn gosod targedau sy'n adlewyrchu hyn, byddai hynny'n ddefnyddiol yn ein barn ni.
10. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i adolygiad Llywodraeth y DG o bolisi ynni, yn awgrymu fod cyrraedd gofynion targedau'r RCEP yn golygu mabwysiadu dull deublyg:

- llawer mwy o bwyslais ar reoli'r galw ac ar ddefnydd effeithlon o ynni;

- datblygiad a defnydd o dechnolegau Ynni Adnewyddol.

11. Awgrymwn fod CCC angen ystyried ei agwedd i'r cwestiynau a godir gan yr RCEP yn y tymor byr yn ogystal â'r tymor canol/hir. Yn y tymor byr, y tri phrif gwestiwn yw:

- rheoli'r galw a defnydd effeithlon o ynni;
- datblygu ffermydd gwynt tua'r tir ac alltraeth yn y llefydd iawn;
- datblygu prosiectau Ynni Adnewyddol ar raddfa fach dan arweiniad y gymuned.

Fe edrychwn ni ar bob un cwestiwn yn ei dro, cyn ystyried yr agenda tymor canol/hir.

## CWESTIYNAU TYMOR BYR

### Pwysigrwydd rheoli'r galw a defnydd effeithlon o ynni

12. Rhaid datblygu ffynonellau adnewyddol o ynni ochr yn ochr â phwyslais

mwy o lawer ar wella effeithlonrwydd ynni yr economi, yn enwedig yn y sector domestig. Bydd targed CCC am 2003/4 o wella effeithlonrwydd ynni mewn 38,000 o gartrefi Cymru yn cyfrannu tuag at hyn. Er hynny, mae'r Adran Ddiwydiant a Masnach yn amcangyfrif – yn absenoldeb mesurau pellach – y bydd cyfanswm y galw am drydan yn y DG yn codi o 1-1.25% y flwyddyn yn y cyfnod hyd at 2020.

13. Mae'r Carbon Trust, Comisiwn Datblygu Cynladwyedd y DG a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i gyd wedi cyflwyno tystiolaeth i adolygiad polisi ynni Llywodraeth y DG yn dangos y potensial i wella effeithlonrwydd ynni yn sylweddol ym mhen draw'r llinell ddefnydd, ar draws yr holl sectorau. Gobeithio y bydd y dystiolaeth hon yn ysbrydoli'r Pwyllgor Datblygu Ynni a'r CCC i gynyddu eu pwyslais a'r cyllid a neilltuir er mwyn cael mwy o effeithlonrwydd ynni yng Nghymru..

14. Yn ein barn ni dylai'r sector gyhoeddus gael ei gweld yn rhoi arweiniad o ran gweithredu'r safonau arbed ynni ac effeithlonrwydd uchaf posibl o fewn eu hadeiladau. Mae'r sector gyhoeddus yn rhan fawr o economi Cymru, yn enwedig "trefi gwledig" Cymru. Drwy ein gwaith yn datblygu thema draws-doriadol cynladwyedd amgylcheddol o fewn Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, rydym wedi sicrhau y bydd pob safle diwydiannol ac adeilad sy'n cael arian yn rhannol o dan Amcan 1, yn cael ei adeiladu yn ôl y safonau effeithlonrwydd ynni uchaf (BRESCU). Fe gyhoeddwyd "*Building in Green*", canllaw i dechnegau adeiladu amgylcheddol gynladwy sy'n hyrwyddo cwestiynau effeithlonrwydd ac arbed ynni (yn ogystal â chwestiynau eraill megis defnyddio paneli solar). Mae effeithlonrwydd ynni yn gwestiwn y dylai CCC, yn ein barn ni, fynnu newid yn y sector gyhoeddus o dan nawdd y cynllun datblygiad cynladwy sydd ganddo. Byddai targedau effeithlonrwydd ynni i'r sector gyhoeddus yn gymorth.

15. Po fwyaf yw'r gostyngiad yn y galw am drydan rhwng 2002 a 2010 drwy reoli galw ac effeithlonrwydd ynni, yr hawsaf fydd hi i gyrraedd targed ynni adnewyddol Cymru.

#### Datblygiad melinau gwynt ar y glannau a rhai alltraeth yn y llefydd iawn

16. Datblygu melinau gwynt lawer mwy ar y glannau a rhai alltraeth yn y llefydd iawn, ynghyd â chefnogaeth addas gan fusnes i ddatblygu'r diwydiant adeiladu twrbinau gwynt cynhenid yng Nghymru. Rydym yn barod i weithio ar lefel cynllunio strategol a chymryd rhan mewn trafodaethau strategol gyda'r diwydiant melinau gwynt, i helpu i gyflawni

hyn (bydd rhagor o fanylion am hyn yn nes ymlaen o dan "bwysigrwydd cynllunio gofodol"). Ar lefel cynlluniau unigol, awgrymwn y dylai'r adolygiad i TAN 8 hyrwyddo "prawf olynol" ar gyfer gwynt ar y glannau, yn nhermau lleoliad, drwy osod blaenoriaethau o ran, er enghraifft, safleoedd caeau brown; yna safleoedd ar ymyl clymdrefi; yna safleoedd yn y wlad yn gyffredinol, yn "is i lawr y mynydd" os yn bosibl (er ein bod yn cydnabod y berthynas agos rhwng cyflymder gwynt ac allbwn y trydan). Byddem yn dal yn dymuno osgoi datblygiadau mewn safleoedd neu foroedd dynodedig. Yn ein barn ni, dylai defnydd o werthusiad cynaladwyedd (o fewn cyd-destun cynllun CCC ar gyfer datblygiad cynaladwy) hyrwyddo agwedd o'r fath;

### Datblygu prosiectau Ynni Adnewyddol ar raddfa fach dan arweiniad y gymuned

17. Rydym yn cefnogi datblygiad mentrau Ynni Adnewyddol dan arweiniad y gymuned yn frwd. Rydym eisoes yn buddsoddi £20,000 o'n grant cynnal am y flwyddyn ariannol hon ar ddau gynllun yng Nghymru:

- cynllun yn cael ei redeg gan Awdurdod Ynni Powys sy'n cynnig grantiau i gymunedau ym Mhowys i ddatblygu prosiectau Ynni Adnewyddol ar raddfa fach;
- prosiect yn cael ei redeg gan Dulas Cyf i gynnig cyngor cyfreithiol a thechnegol

### CWESTIYNAU TYMOR CANOL/HIR

18. Credwn fod y ddau gwestiwn canlynol yn berthnasol i ddatblygiad agenda tymor canol/hir CCC gyda golwg ar ddatblygiad YA yng Nghymru:

- buddsoddi yn awr mewn ymchwil a datblygu er mwyn cynyddu gallu Cymru i ddatblygu casgliad ehangach o dechnolegau YA, er mwyn osgoi "rhoi'n wyau i gyd mewn un fasged YA". Awgrymwn mai'r technolegau YA allweddol lle gallai Cymru ddatblygu gallu blaengar (a lle mae angen Ymchwil a Datblygu) yw cynlluniau ynni dwr bychan a micro; twrbinau o dan y môr; ac ynni tonnau. Mae'r cynllun 'Cynhyrchu Ynni o'r Tonnau', a gafodd grant o £46,000 dros ddwy flynedd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro o dan fenter Cronfa Ddatblygu Amgylcheddol CCC, yn enghraifft dda o brosiect arloesol addas o fewn tirlun y môr sy'n cael ei warchod yn statudol.

- cefnogaeth ymarferol ac anogaeth i'r newidiadau amrywiol sydd eu hangen i annog pobl i ddefnyddio CHP domestig. Mae CHP domestig yn defnyddio 93% o ynni thermal nwy fel trydan a gwres, o'i gymharu â 45% ar gyfer CCGT.

## Targedau YA Cymru: 2010 a 2020

19. Targed CCC am 2010, a esbonir yng Nghynllun Cymru 2001, yw fod "10% o gynhyrchu trydan i ddod o ffynonellau ynni glân". Mae'r Uned Perfformiad ac Arloesi wedi awgrymu fod "targed pellach o 20% erbyn 2020 yn bosibl, ac mae dadansoddiad cychwynnol o oblygiadau targed mwy uchelgeisiol o 30% ar y gweill". O gofio natur hir-dymor targed CO<sub>2</sub> yr RCEP, awgrymwn y dylai CCC yn awr ystyried ei darged ar gyfer y gyfran o gynhyrchu YA yng Nghymru erbyn 2020, i yrru'r ymchwil, datblygu, isadeiledd a'r peirianwaith ariannu angenrheidiol yn ei flaen.

20. Er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y targed am 2010, rydym yn argymhell fod CCC :

- yn cyhoeddi'r targed hwn fel cynnydd gwirioneddol yn allbwn y trydan o ffynonellau adnewyddol yng Nghymru (mae ffigurau ym mhapur Pwyllgor Datblygu Ynni 12-01(tud.4) yn dangos fod cynnyrch trydan cyfredol yng Nghymru yn 30TWh, felly 10% o hynny fyddai 3TWh, o'i gymharu â'r allbwn YA presennol yng Nghymru o 0.53TWh);
- yn datgan pa gynnydd mewn cynhyrchu YA sydd ei angen i gyflawni hyn. Nodwn fod papur y Pwyllgor Datblygu Ynni PDY 01-02(tud.5) yn argymhell targed o 1000MW o drydan YA erbyn 2010, o'i gymharu â'r gallu YA presennol yng Nghymru o 327MW (*Adolygiad o Astudiaeth Strategol o Adnoddau YA yng Nghymru, Technoleg AEA, 2001*);
- yn cadarnhau ei farn ynglyn â pha dechnolegau y gellir eu disgrifio fel "ffynonellau ynni glân".

## Gweithio tuag at darged o 10%

21. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn croesawu defnydd o ffynonellau ynni

adnewyddol fel un elfen o bolisi ynni sy'n gyflawn ac yn amgylcheddol sensitif, ar yr amod fod cynlluniau unigol yn cael Asesiad Amgylcheddol a bod y gwahanol dechnolegau yn cael eu monitro am effeithiau hir-dymor. Byddwn yn cynghori'r gwneuthurwyr penderfyniadau ynglyn â datblygiad YA. Os yw'r rhain mewn tirluniau dynodedig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd oherwydd eu pwysigrwydd o ran cadwraeth, ac os gallai'r datblygiadau niweidio'r nodweddion a oedd yn sail i'r dynodiad, byddwn yn tynnu sylw'r bobl sy'n gwneud y penderfyniad at hyn. Fel gyda phob datblygiad, mae'r effeithiau amgylcheddol yn ddibynnol ar leoliad a graddfa i raddau helaeth. Rydym yn falch fod AEA Technology, wrth amcangyfrif potensial y gwynt yng Nghymru, wedi diystyru'r Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Gwarchodfeydd Natur.

22. O fewn trefn Cynllunio Gwlad a Thref, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cynghori awdurdodau lleol, CCC a Llywodraeth y DG ar sail statudol. Mater i'r cyrff hyn, ac nid i'r Cyngor, yw pwysu a mesur y gwahanol gwestiynau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd ynghlwm wrth ddatblygiadau YA unigol wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Mae'n well gennym weithio'n bositif gyda datblygwyr, gan osod canllawiau a chynnig cyngor er mwyn sicrhau fod datblygiadau YA yn digwydd mewn ffordd sy'n cydweddu â thirlun a bioamrywiaeth Cymru. Mae'n well gennym gael ymgynghoriad buan bob amser.

23. Er hynny, rydym yn cydnabod fod cyrraedd targed Cymru o 10% yn llwyddiannus yn gofyn am agwedd mwy pro-actif a strategol gan bob cyfranddeiliad. Rydym yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn trafodaethau ar lefel strategol er mwyn cyflawni hyn. Mae profiad datblygiadau YA alltraeth – lle, yn wahanol i drefn yr NFFO, y cymerwyd sensitifrwydd amgylcheddol i ystyriaeth – yn cynnig y ffordd ymlaen. Y cwestiwn canolog yw lleoliad – dymunwn osgoi datblygu'r technolegau YA cywir yn y lleoliadau anghywir.

24. Er mwyn gosod sail wybodus i'n hagwedd tuag at yr angen i gyrraedd targed Cymru o 10%, rydym wedi comisiynu Dulas Ltd i gynhyrchu dadansoddiad sector breifat annibynnol o'r cwestiynau sy'n ymwneud â datblygiad YA yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ymchwil hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i adolygu a datblygu ein polisiau ein hunain mewn cefnogaeth i ddatblygiad YA.

#### Pwysigrwydd cynllunio gofodol

25. Rydym yn hynod o gefnogol i ymrwymiad CCC i baratoi Cynllun Gofodol Cymru (CGC) ac yn ei weld fel cyfle i roi mynegiant gofodol i gynllun datblygu cynaladwy CCC. Rydym yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli

Cynllunio Gofodol. Rydym yn edrych ar y CGC fel offeryn allweddol i helpu i ddarganfod ac i osod sail ffeithiol, yn gynnar yn y broses ac ar amser strategol, i ddewisiadau polisi ac ardaloedd daearyddol bras lle gall datblygiad technolegau YA ddigwydd er mwyn helpu Cymru i gyrraedd y targed o 10%. Polisi Cynllunio Cymru a TAN 8 yw'r peirianwaith mwyaf addas i ddarparu'r canllawiau ar gyfer lleoliadau manwl a chynllunio.

[1] yn dilyn tendro cystadleuol, ac yn annibynnol ar y penderfyniad i gynnig cymorth grant i Dulas Cyf, fel y cyfeiriwyd ym mharagraff 17.

26. Credwn y dylai CGC gynnwys cwestiynau cynllunio o fewn dyfroedd tiriogaethol Cymru (hyd at 12 milltir o'r llinellau sail) er mwyn hwyluso datblygiad technolegau YA pell o'r lan ac i ganiatáu ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng cynhyrchu ar y glannau ac ymhell o'r lan. Byddai integreiddio polisi a'r drefn gwneud penderfyniadau yn ymwneud â daear, arfordir a moroedd Cymru, yn helpu i greu fframwaith resymegol ar gyfer dadansoddi cyfraniad tir a gwely moroedd Cymru tuag at helpu i gyrraedd targedau'r Llywodraeth ar gyfer YA.
27. Fel rhan o'u gwaith i ni, rydym wedi gofyn i Dulas Cyf. baratoi map yn dangos adnoddau gwynt Cymru wedi'i osod ar ben y Grid Cenedlaethol a'r rhwydwaith dosbarthu lleol yng Nghymru (a dangos lle mae'r gallu sbâr ar gael), wedi'i osod wedyn ar ben dynodiadau amrywiol o ran tirwedd a chadwraeth fel y cyfeiriwyd uchod. Ein gobaith yw y bydd hyn yn rhoi golwg gychwynol yn ymwneud â datblygiad canllawiau lleoliadau strategol ar gyfer datblygu YA yng Nghymru. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn awr. Byddem yn hapus i gydweithio â'r amrywiol gyfranddeiliaid yng Nghymru i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, gwaith y credwn fydd yn sail i CGC ac i'r Adolygiad o Bolisi Ynni.

28. Cynigiwn sylwadau byr isod ar dechnolegau unigol.

### Gwynt tua'r traeth

29. Y cwestiynau allweddol yw lleoliad, graddfa a chynllun. Hoffem weld datblygiad ffermydd gwynt ar y glannau sy'n gweddu i'r tirlun yn nhermau graddfa a chynllun – enghraifft dda yw'r datblygiad yn Rhyd y Groes, Bae Cemaes, Ynys Môn.
30. Mae angen i'r cwestiynau hyn gael eu hadlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn TAN 8. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhan o weithgor, gydag aelodau o'r diwydiant YA a chyfranddeiliaid eraill, gyda'r bwriad o adolygu y TAN8 ar ynni adnewyddol sy'n bod ar hyn o bryd. Mae'r TAN 8 presennol bron yn union yr un fath â'r PPG22 sy'n cynnig canllawiau yn Lloegr, a'r gobaith yw cynhyrchu



canllawiau fydd yn uniongyrchol berthnasol i Gymru.

### Gwynt alltraeth

31. Gwelwn bosibiliadau mawr i ddatblygiad ynni gwynt ymhell o'r lan mewn ffyrdd sy'n sensitif i fioamrywiaeth dyfroedd alltraeth Cymru ymhell a'i morluniau.
32. Bwriedir codi tair fferm wynt yng Nghymru. Nid oes gennym ni broblem wirioneddol gyda'r safleoedd hyn (mae'n rhaid ystyried sensitifrwydd amgylcheddol wrth ddewis safleoedd). Mae angen asesu effaith yn y safle ei hun, ac rydym wedi bod yn cynghori'r datblygwyr a'u hymgyngorwyr gyda'u Hasesiadau Effaith Amgylcheddol. Rydym wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol ar hyn. Er enghraifft, rydym wedi cynhyrchu "*Llawlyfr arfer da wrth asesu morlun*", wedi ei ariannu yn rhannol o dan raglen INTERREG Cymru-Iwerddon, i gynnig cyngor i ddatblygwyr ynglyn â sut y dylent wneud asesiadau morlun.
33. Y prif gwestiwn i ddwy o'r tair fferm wynt arfaethedig o fewn dyfroedd Cymru yw cyfanswm effaith prosiectau unigol ym Mae Lerpwl (mae tri chynnig arall ym Mae Lerwpl, Lloegr) yn enwedig ar fôr-hwyaid ac adar y glannau. Rydym wedi gweithio gyda datblygwyr (National Wind Power and BHP) i ariannu a chydlynu cyfrifiadau ar y tir a'r môr – bydd y data o'r cyfrifiadau hyn yn sail i Asesiadau Effaith Amgylcheddol unigol. Mae'r ymchwil (sy'n cael arian hefyd gan y Crown Estate a West Coast Energy) yn mynd rhagddo.
34. Mae'n werth nodi fod problem cyfanswm effeithiau yn ganlyniad rhannol o leiaf i'r ffaith na fu unrhyw gynllunio strategol ar gyfer datblygiad gwynt ymhell o'r lan. Mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw i'r CGC gynnwys datblygiadau yn y môr. Argymhellwn fod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn darparu gwybodaeth fydd yn sail i ddatblygiad y genhedlaeth nesaf o ffermydd gwynt ymhell o'r lan. Mae angen i fonitro amgylcheddol cenhedlaeth gyntaf y ffermydd gwynt pell o'r lan fod yn sail i hyn. Mae angen canllawiau CCC ar fonitro hefyd. Credwn y byddai hefyd yn fantais pe gellid cydlynu monitro ac ymchwil ac y gallai'r holl gyfranddeiliaid wneud hynny ar y cyd.

### Morglawdd Llanw

35. Argymhellwn y dylid adolygu'r holl waith a wnaed eisoes ar y safleoedd posib ar gyfer morglawdd ar afonydd Hafren a Chonwy, gan nodi cwestiynau newydd a gododd ers yr astudiaethau gwreiddiol. Rydym yn aros am ganlyniad yr

"astudiaeth ddiffiniol" gan Grë p Ynni Llanw Afon Hafren, a gomisiynwyd gan yr Adran Fasnach a Diwydiant, sy'n ystyried a oes angen adolygiad llawn ai peidio. Bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn dymuno cynnig sylwadau ar yr astudiaeth hon a chymryd rhan mewn unrhyw waith yn y dyfodol ar ddichonolrwydd y prosiect.

36. Petai rhagor o waith yn cael ei wneud ar Forglawdd Llanw Hafren, bydd statws aber Afon Hafren fel ACA yn gwestiwn pwysig, gan fod y nodweddion y cafodd ei dewis o'u plegid yn adlewyrchu amrediad uchel y llanw. Cafodd y safle ei chyflwyno i lywodraeth y DG gan y Cyngor Cefn Gwlad ac English Nature fel ACA, ond ni chafodd ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd oherwydd gwrthwynebiad sy'n dal i sefyll gan Borthladd Bryste ac mae'n ymwneud â gor-anghysondeb wrth drin ffiniau mewn aberoedd ar hyd a lled y GE.
37. Ar y cyfan, fodd bynnag, byddem yn mabwysiadu agwedd ofalus tuag at ddatblygu morgloddiau llanw'r môr, yn wyneb yr effeithiau difrifol tebygol ar amgylchedd safleoedd cadwraeth natur Ewropeaidd o bwys. Er enghraifft, byddai adeiladu'r argae ar draws yr Hafren yn arwain at golli trefn arbennig y llanw yn yr aber a'r cynefinoedd sy'n adlewyrchu hyn, ond mae'n debygol y byddai'r aber, ar ôl codi'r argae, yn cynnal mwy o adar. Byddai'r angen i symud cyfleusterau porthladd mawrion yn nes i lawr yr afon hefyd yn fater o bryder mawr i'r Cyngor Cefn Gwlad. Byddem hefyd yn credu y dylai unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus mewn adeiladu argae gael ei ddadansoddi i weld a yw'n gost-effeithiol, a'i gymharu â'r budd y gellid ei greu petai'r un adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn rheolaeth ar y galw a thechnolegau defnyddio ynni'n effeithlon.

## Bio-màs

38. Rydym yn aelodau o Grë p Strategaeth Coedlannau Ffermydd a Bio-màs CCC. Yn gyffredinol, rydym yn gefnogol i ddatblygiad bio-màs yng Nghymru, unwaith eto ar yr amod fod y lleoliad, y raddfa a'r cynhyrchu yn amgylcheddol sensitif. Byddai cynhyrchu yn agos at y bio-màs yn well, oherwydd y cwestiynau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chludo deunydd anhylaw, heb lawer o werth, am bellter hir.

## Cynlluniau dwr ar raddfa fach

39. Yn gyffredinol, rydym yn gefnogol i ddatblygiad cynlluniau dwr ar raddfa fach yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod fod yna gwestiynau amgylcheddol ynghlwm wrth dynnu dwr (a'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth) ac effaith newid mewn trefnau chwistrellu ar gymunedau brÿoffyt. Mae'n bosibl fod angen rhagor o ymchwil i'r materion hyn.

## Casgliadau

40. Er mwyn cyrraedd targed CO<sub>2</sub> RCEP, mae angen agwedd ddeublyg, yn canolbwyntio'r un faint ar reoli'r galw ac effeithlonrwydd ynni, ac ar ddatblygu technolegau YA yng Nghymru.

41. Yn y tymor byr, gwynt tua'r traeth a gwynt alltraeth sy'n cynnig y posibiladau mwyaf o ran cyrraedd targed Cymru o 10%. Rhaid inni osgoi defnyddio'r "dechnoleg gywir yn y lle anghywir", a cheisio cael atebion "ennill bob ffordd" lle bynnag y mae'n bosibl. Mae angen cynllunio ar lefel strategol er mwyn helpu i ddarganfod ardaloedd addas ar y glannau ac ymhell o'r glannau. Mae angen cyd-drafod ar lefel strategol rhwng yr holl gyfranddeiliaid i wneud hyn. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn barod i gymryd rhan bositif mewn cyd-drafodaethau o'r fath er mwyn helpu CCC i gyrraedd ei darged o 10%.

42. Yn y tymor canol/hir bydd angen casgliad llawer mwy o dechnolegau YA a thechnolegau eraill (megis dCHP). Mae angen buddsoddi yn awr er mwyn ysgogi datblygiad technolegau YA amgenach.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**  
**Ionawr 2002**